



## Focus on number and shape for Wales Maths Week

Maths is going arty in schools across Wales this term, with pupils competing for prizes in the mathcymru digital photography competition. The theme of the competition is "Numbers and Shapes", and young photographers - even those at KS1 - are invited to send in pictures representing an interesting view of numbers and / or shapes.

The themes give great scope for children to take pictures...some might take a picture of friends playing with bubbles or balls, to show circles, others might look to nature for spirals, ellipses, or to architecture for squares, rectangles, triangles and so on. The competition will provide pupils with the opportunity to develop and apply their knowledge of number, shape and space in an innovative and inventive way.

Schools are invited to shortlist their best entries in each of the Key Stage age groups,

including those above Key Stage 4, and send the best ten entries in each age group for final judging.

The judges will be looking for good composition and will consider the depiction of number, and the range and number of shapes included, in addition to the photograph's general appeal.

Each entry must be accompanied by up to 100 words describing when and where the photograph was taken, and why it was chosen to represent numbers and / or shapes.

The mathcymru co-ordinator Dave Breen says: "The entries will appear in an online gallery on the mathcymru website. Winners will be selected from each of five age groups and the winners will be announced in the New Year".

Although limited entries can be allowed from each school, the activity may be used as a whole school activity and can bring a different aspect to the study and observation of mathematics.

So why not hold an internal photography competition in the school and choose the school's favourites as the chosen mathcymru entries. The school's entries could be voted for by a chosen panel of staff, pupils and parents, get everyone all involved.

### Rules:

Digital pictures (no more than 750kb) to be e-mailed to [competition@mathcymru.org](mailto:competition@mathcymru.org)

Up to 100 words on why the subject was chosen.

Include photographer's name, age, and school, and the number of pupils involved in the internal school round of the competition, where applicable.

A maximum of 10 entries is allowed per Key Stage for each school. So if you are entering from a primary school it is perfectly acceptable to enter 10 Key Stage 1 pupils, and an additional 10 Key stage 2 pupils. Likewise secondary schools can enter 10 Key Stage 3 Pupils and an additional 10 from Key Stage 4, as well as 10 from the above Key stage 4 category. However infant schools would be limited to 10 entries in the Key Stage 1 category.

**Closing date Monday 26 November.**

## Canolbwyntio ar rifau a siapiau ar gyfer Wythnos Fathemateg Cymru

Mae mathemateg yn troi'n gelfyddydol ar hyd a lled Cymru y tymor yma, gyda disgyblion yn cystadlu am wobrau yng nghystadleuaeth ffotograffiaeth ddigidol mathcymru. Thema'r gystadleuaeth yw "Rhifau a Siapiau", ac mae'r ffotograffwyr ifanc - hyd yn oed y rhai yn CA1 - yn cael eu gwahodd i anfon lluniau'n cynrychioli golwg ddi-ddorol o rifau a/neu siapiau.

Mae'r themâu'n rhoi cwmmpas eang i blant gael tynnu lluniau...efallai y bydd rhai yn tynnu lluniau o ffrindiau'n chwarae gyda swigod neu beli i ddangos cylchoedd, efallai y bydd eraill yn edrych ar natur i ddod o hyd i droellau neu hirgylchau neu ar bensaernïaeth i ddod o hyd i sgwariau, petryalau, trionglaau ac yn y blaen. Bydd y gystadleuaeth yn cynnig cyfle i'r disgyblion i ddatblygu a chymhwyso eu dealltwriaeth o rifau, siapiau a gofod mewn ffordd arloesol a dyfeisgar.

Gwahoddir ysgolion i greu rhestr fer o'u ceisiadau gorau ym mhob un o'r Cyfnodau Allweddol, yn cynnwys y rhai uwchben Cyfnod Allweddol 4, ac i anfon y deg ymgais orau ym mhob gr\_p oedran ar gyfer y beirniadu terfynol.

Bydd y beirniaid yn edrych am gyfansoddiad da ac fe fyddan nhw'n ystyried y darluniad o rif, yr ystod a'r nifer o siapiau gaiff eu cynnwys, yn ogystal ag apêl cyffredinol y darlun.

Rhaid cynnwys gyda phob ymgais hyd at 100 o eiriau yn disgrifio pryd a ble y tynnwyd y llun, a pham y cafodd ei ddewis i gynrychioli rhifau a/neu siapiau.

Dywedodd cydlynnydd mathcymru Dave Breen: "Bydd y ceisiadau yn ymddangos ar oriel ar-lein ar wefan mathcymru. Bydd enillwyr yn cael eu dewis o bob un o'r pum gr\_p oedran a chaiff yr enillwyr eu cyhoeddi yn y Flwyddyn Newydd".

Er mai dim ond nifer cyfyngedig o gynigion y gellir eu caniatáu o bob ysgol, gall y gweithgaredd gael ei ddefnyddio fel gweithgaredd ar gyfer ysgol gyfan a gall ddod ag agwedd wahanol i astudiaeth ac arsylliadau mathemategol.

Felly pam na gynhaliwch chi gystadleuaeth ffotograffiaeth fewnol yn yr ysgol a dewis ffefrynau'r ysgol fel y cynigion a ddewisir ar gyfer mathcymru. Gallai panel o staff, disgyblion a rhieni bleidleisio dros gynigion yr ysgol, gan ddod â phawb at ei gilydd i gymryd rhan.

### Rheolau:

Lluniau digidol (dim mwy na 750kb) i gael eu e-bostio i [cystadleuaeth@mathcymru.org](mailto:cystadleuaeth@mathcymru.org)

Rhaid cynnwys hyd at 100 o eiriau ar pam y dewiswyd y pwnc.

Cynhwyswch enw, oedran ac ysgol y ffotograffydd a'r nifer o ddisgyblion gymrodd ran yn rownd fewnol yr ysgol o'r gystadleuaeth, lle bo hynny'n gymwys.

Uchafrif o 10 cais a ganiateir o bob Cyfnod Allweddol ym mhob ysgol. Felly os ydych chi'n ymgeisio o ysgol gynradd mae'n berffaith dderbyniol i gynnig 10 disgybl Cyfnod Allweddol 1 a 10 disgybl Cyfnod Allweddol 2. Felly hefyd gall ysgolion uwchradd gynnig 10 disgybl Cyfnod Allweddol 3 a 10 disgybl ychwanegol o Gyfnod Allweddol 4 a 10 ychwanegol o'r categori sy'n uwch na Chyfnod Allweddol 4. Ond byddai ysgolion babanod yn cael eu cyfyngu i 10 cais yn y categori Cyfnod Allweddol 1.

**Y dyddiad cau yw Dydd Llun, 26 Tachwedd.**



A circular booth appears oval in this photo of a Musiquest exhibit at Techniquest in Cardiff Bay.

Mae bwth crwn yn ymddangos fel hirgrwn yn y llun yma o arddangosyn Musiquest yn Techniquest Bae Caerdydd.

# Grant awards for ambitious projects

Innovative projects at schools in Wales are receiving big grants from mathcymru to enhance their maths lessons.

Grants of up to a thousand pounds will help with a range of diverse projects from developing skipping rhymes to growing vegetables. There are plans to involve whole communities in some of the schemes.

The mathcymru co-ordinator Dave Breen says the chosen projects stood out from the scores submitted: "They are all

the sort of ideas that you can imagine could run for years...and most could be transferred easily to other schools. We will be keeping in touch with the projects as they progress to enable us to write up templates for how other schools can follow suit in future years".

Scores of schools were disappointed...but there are still opportunities for them to take part in activities during Wales Maths Week.

## The winners:

### Argoed High School

Some year 8 and 9 pupils in Mold will be sampling life as teachers to help other students with numeracy skills. Teacher Janice Grice says the pupils will work to create a professional-looking DVD of their presentations, which can then be used in other classes.

### Ysgol Uwchradd Argoed

Bydd rhai disgyblion o flynyddoedd 8 a 9 yn yr Wyddgrug yn cael blas o fywyd athro er mwyn helpu myfyrwyr eraill gyda'u sgiliau rhifedd. Dywedodd Janice Grice, un o'r athrawon, y bydd y disgyblion yn gweithio i greu DVD sydd mor broffesiynol â phosibl o'u cyflwyniadau.

### Trallwng Infants School

Staff in Trallwn, Pontypridd, aim to involve the whole community in their maths week activity, by developing a maths trail in Ynysangharad Park. This idea is one of several that make up a total project which aims to build confidence in maths and problem solving.

### Ysgol Babanod Trallwng

Mae'r staff yn Trallwng, Pontypridd, am geisio cynnwys y gymuned gyfan yn eu gweithgaredd wythnos fathemateg, trwy greu taith fathemateg ym Mharc Ynysangharad. Mae'r syniad hwn yn un o nifer sy'n creu'r prosiect cyfan sy'n amcanu i fagu hyder mewn mathemateg a datrys problemau.

### Ysgol Trewen

Children aged 9 to 11 in Newcastle Emlyn will be learning maths while studying alternative energy sources. They'll be investigating the amount of energy produced by different sources, developing their maths skills including measurement and data collection.

### Ysgol Trewen

Bydd plant rhwng 9 ac 11 oed yng Nghastell Newydd Emlyn yn dysgu mathemateg tra'n astudio ffynonellau amgen o ynni. Fe fyddan nhw'n astudio faint o ynni gaiff ei gynhyrchu gan ffynonellau gwahanol, gan ddatblygu eu sgiliau mathemateg yn cynnwys mesur a chasglu data.

### Ysgol Penmaes

Literacy, dance, citizenship and problem solving all form part of the project, in Brecon, for children with a range of learning difficulties. Staff at Ysgol Penmaes hope to involve children from other special units in the area in some of the activities.

### Ysgol Penmaes

Mae llythrennedd, dawns, dinasyddiaeth a datrys problemau oll yn ffurfio rhan o'r prosiect, yn Aberhonddu, ar gyfer plant gydag amrywiaeth o anawsterau dysgu. Mae staff yn Ysgol Penmaes yn gobeithio cynnwys plant o unedau arbennig eraill yn yr ardal yn rhai o'r gweithgareddau.

### Ysgol Morfa Rhianedd

A cross curriculum project in Llandudno will see children assessing the benefits of growing their own vegetables, from a health and financial point of view, in addition to using their basic maths skills of weighing, measuring and analysing data. The school has been awarded a thousand pounds.

### Ysgol Morfa Rhianedd

Mae prosiect traws-gwricwlaidd yn Llandudno yn golygu y bydd plant yn asesu buddiannau tyfu eu llysiau eu hunain, o safbwynt iechyd ac o safbwynt ariannol, yn ogystal â defnyddio eu sgiliau mathemateg sylfaenol o bwysu, mesur a dadansoddi data. Mae'r ysgol wedi derbyn mil o bunnau.

### Ysgol y Llan

Maths will become part of playtime fun in Whitford near Holywell, thanks to a grant of £980 to help deliver a project to creating maths raps and rhymes. Head teacher Kath Royles says the children have already devised some maths poems and would like to write more, and develop these rhymes into skipping chants and other playground activities.

### Ysgol y Llan

Bydd mathemateg yn dod yn rhan o hwyl yr egwyl yn Chwitfordd ger Ffynngroyw, gyda diolch i grant o £980 i gynorthwyo wrth gyflawni prosiect i greu rapiau a rhigymau mathemateg. Dywedodd y brifathrawes Kath Royles bod y plant eisoes wedi dyfeisio nifer o gerddi mathemateg ac fe hoffon nhw ysgrifennu mwy, a datblygu'r rhigymau yma i siantiau sgipio a gweithgareddau maes chwarae eraill.

## Dyfarnu grantiau ar gyfer prosiectau uchelgeisiol

Mae prosiectau arloesol mewn ysgolion yng Nghymru yn derbyn grantiau sylweddol oddi wrth mathcymru i wella'u gwersi mathemateg.

Bydd grantiau o hyd at fil o bunnoedd yn cynorthwyo nifer o brosiectau amrywiol, gan gynnwys datblygu odlau sgipio a thyfu llysiau. Mae yna gynlluniau i gynnwys cymunedau cyfan yn rhai o'r cynlluniau.

Dywedodd cydlynnydd mathcymru Dave Breen bod y prosiectau sydd wedi eu dewis yn sefyll allan o'r ugeiniau a gafodd eu cyflwyno: "Maen nhw i gyd yn syniadau o'r

math y gallech ddychmygu yn para am flynyddoedd... a gallai'r rhan fwyaf gael eu trosglwyddo'n hawdd i ysgolion eraill. Fe fyddwn ni'n cadw mewn cysylltiad â'r prosiectau wrth iddyn nhw ddatblygu er mwyn ein galluogi i greu templedi ar gyfer ysgolion eraill er mwyn iddyn nhw allu gwneud yr un peth yn y blynyddoedd i ddod".

Roedd ugeiniau o ysgolion wedi eu siomi... ond mae cyfleon yn dal i fodoli iddyn nhw gymryd rhan mewn gweithgareddau yn ystod Wythnos Fathemateg Cymru.

### **Pencae School**

Among the youngest pupils to benefit from the grant will be those in the early years' department at Pencae School in Penmaenmawr. The school aims to turn a small, unused patch of land into a learning garden, where children can assist with growing fruit and vegetables, developing their maths skills in the process.

### **Ysgol Pencae**

Ymhlith y disgyblion ieuengaf i gael budd o'r grant yw'r rhai yn adran y blynyddoedd cynnar yn Ysgol Pencae ym Mhenmaenmawr. Mae'r ysgol yn amcanu i addasu darn o dir bychan di-dddefnydd i fod yn ardd ddysgu, lle gall plant helpu i dyfu ffrwythau a llysiau, gan ddatblygu eu sgiliau mathemateg yn y broses.

### **Ysgol Grymraeg Rhiwfawr**

All the pupils at this rural school in the Swansea Valley will be involved in maths activities thanks to a grant of £500 for a cross curriculum project. It's a creative project with the children getting involved in cookery, construction and designing board games.

### **Ysgol Gymraeg Rhiwfawr**

Bydd yr holl ddisgyblion yn yr ysgol wledig hon yn Nyffryn Abertawe yn cymryd rhan mewn gweithgareddau mathemateg trwy grant o £500 ar gyfer prosiect traws-gwricwlaidd. Mae'n brosiect creadigol gyda'r plant yn cymryd rhan mewn coginio, adeiladu a chynllunio gemau bwrdd.

### **Cwmpadarn Primary School**

In Llanbadarn Fawr, children in the top classes will be getting to know their local environment with a unique maths challenge trail which will provide them with real life challenges outside the classroom..

### **Ysgol Gynradd Cwmpadarn**

Yn Llanbadarn Fawr, bydd y plant yn y dosbarthiadau uchaf yn dod i adnabod eu hamgylchedd gyda thaith sialens mathemateg unigryw.

### **Wood Memorial School**

In Saltney, parents and the local community will be involved with the project at Wood Memorial School which involves focussing on maths in nature and the built environment. The school recently gained the Green Flag Eco-school award.

### **Wood Memorial School**

Yn Saltney, bydd rhieni a'r gymuned leol yn ymwneud â'r prosiect yn Wood Memorial School sy'n canolbwyntio ar fathemateg yn natur a'r amgylchedd adeiledig. Yn ddiweddar cafodd yr ysgol wobwr y Faner Werdd ar gyfer Eco-sgolion.

### **Ysgol Merllyn**

Key Stage 2 pupils from Bagillt will be helping to create maths treasure hunts around the school grounds for other classes to follow. Headteacher Steve Lewis says the children will also be involved in evaluating the treasure hunts.

### **Ysgol Merllyn**

Bydd disgyblion Cyfnod Allweddol 2 o Bagillt yn helpu i greu helfeydd trysor mathemateg o gwmpas tir yr ysgol er mwyn i ddosbarthiadau eraill eu dilyn. Dywedodd y prifathro Steve Lewis y bydd y plant hefyd yn ymwneud â gwerthuso'r helfeydd trysor.

### **Ystruth Primary School**

Children from 3 to 7 years old in Blaina will be able to enjoy maths in the playground thanks to a "Number line" which will take them to maths activity "stations". The project will be launched with the help of parents.

### **Ysgol Gynradd Ystruth**

Bydd plant o 3 hyd 7 oed ym Mlaina yn gallu mwynhau mathemateg ar y maes chwarae diolch i "Llinell Rhifau" fydd yn mynd â nhw i "safleoedd" gweithgareddau mathemateg. Bydd y prosiect yn cael ei lansio gyda help rhieni.

### **Ysgol Tir Morfa**

The school in Rhyl caters for children aged between three and 19 years with a range of learning difficulties. Staff intend to use the money to create a lifelike shopping arcade to help children learn about money and shopping.

### **Ysgol Tir Morfa**

Mae'r ysgol yn y Rhyl yn darparu ar gyfer plant rhwng tair a 19 mlwydd oed gydag amrediad eang o anawsterau dysgu. Mae'r staff yn bwriadu defnyddio'r arian i greu rhes o siopau tebyg i rai go iawn er mwyn helpu plant i ddysgu am arian a siopa.

## **It's not too late to join the big experiment!**

There's still time for your school to sign up to take part in a Wales-wide experiment for Wales Maths Week. It involves lots of maths including measuring, recording data, compiling charts, working out probability...and some buttered toast!

The experiment aims to help solve the age-old puzzle of whether toast really does tend to fall butter-side down when you drop it!

In the big mathcymru experiment, some groups will drop their toast from their canteen tables, others might choose to drop their's from a higher point, such as a staircase, or even the ramparts of a castle. In each case the size/weight of the toast and the height from which it's dropped will be recorded, together with which way up it landed.

Each result will be published on the mathcymru website, thus making the data available to all to work on solutions.

The more schools which take part, the better the data will be ...so join in this launch event for Wales Maths Week on October 5.

Full details, and teacher's notes [dave@techniquet.org](mailto:dave@techniquet.org).

## **Dyw hi ddim yn rhy hwyr i fod yn rhan o'r arbrawf mawr!**

Mae yna dal cyfle i'ch ysgol chi gofrestru i fod yn rhan o arbrawf ar draws Cymru ar gyfer Wythnos Fathemateg Cymru. Mae'n cynnwys llawer o fathemateg megis mesur, cofnodi data, creu siartiau, gweithio allan tebygolrwydd... a thost â menygn arno!

Mae'r arbrawf am geisio helpu i ateb y cwestiwn oesol, 'A yw tost yn tueddu i gwmpo â'r menygn tuag i lawr pan fyddwch yn ei ollwng go iawn?'

Yn arbrawf mawr mathcymru, bydd rhai grwpiau'n gollwng eu tost o fyrddau'r ystafell fwyta, efallai y bydd eraill yn dewis gollwng eu darnau nhw o bwnt uwch, tebyg i risiau neu hyd yn oed rhagfuriau castell. Ym mhob achos bydd maint/pwysau'r tost a'r uchder y cafodd ei ollwng ohono'n cael eu cofnodi, yn ogystal â pha ffordd i fyny y glaniodd.

Bydd pob canlyniad yn cael eu cofnodi ar wefan mathcymru, gan olygu y bydd y data ar gael i bawb sydd am weithio ar atebion.

Po fwyaf o ysgolion fydd yn cymryd rhan, y gorau y bydd y data...felly ymunwch yn y digwyddiad hwn ar gyfer Wythnos Fathemateg Cymru ar Hydref 5.

Bydd manylion llawn a nodiadau athrawon ar gael oddi wrth [dave@techniquet.org](mailto:dave@techniquet.org).

## Opportunity to Nrich lessons

Secondary schools across Wales can apply to take part in a fresh project to introduce new maths resources into the classroom.

Teachers can sign up to learn more about Nrich, part of the Cambridge Millennium Maths project which is developing resources to support maths teaching in schools.

During the last school year six schools in Powys and Monmouthshire took part in a pilot scheme run by the Nrich officer for Wales, Sara Longbottom. She says the response from staff and pupils has been fantastic, with many children showing an aptitude for problem solving for the first time.

Now Sara wants to spread the message further. She's looking for up to twenty more schools to work with from the autumn term. She says teachers will have to commit to attend three conferences in October, February and June. "At the first conference the teachers will be introduced to the Nrich website and all its resources, the second conference is for the teachers to report back on what they've been doing, and the third is for schools to share how they are incorporating Nrich resources into their schemes of work".

In between the conferences Sara will keep in touch with the schools and support the teachers.

There are more details about the scheme, and an application form for teachers who want to take part at [www.mathcymru.org](http://www.mathcymru.org)

## Cyfle i gyfoethogi gwersi gydag Nrich



Gall ysgolion uwchradd ar draws Cymru wneud cais i gymryd rhan mewn prosiect ffres i gyflwyno adnoddau mathemateg newydd i'r ystafell ddosbarth. Gall athrawon gofrestru i ddyysgu mwy am Nrich, rhan o brosiect Mathemateg Mileniwm Caergrawnt sy'n datblygu adnoddau i gefnogi dysgu mathemateg mewn ysgolion.

Yn ystod y flwyddyn ysgol ddiwethaf cyfranogodd chwe ysgol ym Mhowys a Sir Fynwy yn y cynllun peilot a drefnwyd gan swyddog Nrich yng Nghymru, Sara Longbottom. Adroddodd fod yr ymateb gan staff a disgyblion wedi bod yn ffantastig, gyda nifer o blant yn dangos cymhwyster i ddatrys problemau am y tro cyntaf.

Nawr mae Sara am ledaenu'r neges ymhellach. Mae hi'n chwilio am hyd at ugain o ysgolion eraill i weithio gyda nhw o dymor yr hydref. Yn ôl Sara, bydd rhaid i athrawon ymrwymo i fynychu tair cynhadledd ym Mis Hydref, mis Chwefror a mis Mehefin. "Yn y gynhadledd gyntaf bydd yr athrawon yn cael eu cyflwyno i wefan Nrich a'i holl adnoddau, mae'r ail gynhadledd yn gyfle i'r athrawon adrodd yn ôl am yr hyn maen nhw wedi bod yn ei wneud, ac mae'r trydydd yn cynnig llwyfan i ysgolion gael rannu sut maen nhw wedi bod yn ymgorffori adnodau Nrich i'w cynlluniau gwaith".

Rhwng y cynadledau bydd Sara'n cadw mewn cysylltiad â'r ysgolion ac yn cefnogi'r athrawon.

Mae mwy o fanylion am y cynllun a ffurflen gais ar gyfer athrawon sydd eisieu cymryd rhan ar [www.mathcymru.org](http://www.mathcymru.org)

## Wales Maths Week special events

Special lectures and workshops are taking place in five towns and cities as part of Wales Maths Week in October.

Statistical sleuthing, maths and magic, and creative thinking are among the subjects on the agenda across Wales.

Dr. Paul Baxter, a lecturer in statistics from Leeds university, will be holding workshops at Newi in Wrexham on Tuesday October 9. He'll be presenting participants with a real data set, and challenging them to analyse the data and try to work out what it represents.

Maths and magic is the subject of a lecture from Dr. Kevin Houston of Leeds university. He says it is possible to shuffle a deck of card so that two halves of the deck become perfectly interlaced allowing many entertaining magic tricks. Dr. Houston will be the Physical Sciences Building at the University of Wales, Aberystwyth on October 11.

Author and creative thinker Rob Eastaway, who's probably best known for his books "How long is a piece of string?" and "Why do buses come in threes?" will be inspiring young mathematicians in Newport. He will be at the Caerleon campus of Newport School of Education on October 12.

Speakers in Bangor (Monday) and Swansea (Wednesday) were still to be confirmed at the time of writing. For up to date information see [www.mathcymru.org](http://www.mathcymru.org)

Places at all events are limited - to reserve your seat please contact [johnohp@techniquest.org](mailto:johnohp@techniquest.org) or telephone **029 20 475 475**.

## Digwyddiadau arbennig Wythnos Mathemateg Cymru

Mae darlithoedd a gweithdai arbennig yn cael eu cynnal mewn pum tref a dinas fel rhan o Wythnos Fathemateg Cymru ym Mis Hydref.

Mae chwilota ystadegol, mathemateg a hud a lledrith, a meddwl creadigol ymhlith y pynciau ar yr agenda ar draws Cymru.

Bydd Dr. Paul Baxter, darlithydd mewn ystadegau o brifysgol Leeds yn cynnal gweithdai yn NEWI yn Wrexham ar Ddydd Mawrth Hydref 9. Fe fydd yn cyflwyno set o ddata wir i'r rhai sy'n cymryd rhan, gan roi sialens iddyn nhw ddadansoddi'r data a cheisio datrys yr hyn mae'n ei olygu.

Mathemateg a hud a lledrith yw testun darlith gan Dr. Kevin Houston o brifysgol Leeds. Fe ddywed ei bod yn bosibl cymysgu pecyn o gardiau fel bod ddwy hanner y pecyn yn ymblethu'n berffaith gan greu cyfle i wneud nifer o driciau hud a lledrith. Bydd Dr. Houston yn yr Adeiladau Ffiseg ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth ar Hydref 11.


Bydd yr awdur a'r meddyliwr creadigol Rob Eastaway, sydd fwyaf enwog mae'n debyg am ei lyfrau "How long is a piece of string?" a "Why do buses come in threes?" yn ysbrydoli mathemategwyr ifanc yng Nghasnewydd. Bydd Rob yng Nghampws Caerleon, Ysgol Addysg Casnewydd ar Hydref 12.

Roedd siaradwyr ym Mangor (Dydd Llun) ac Abertawe (Dydd Mercher) eto i'w cadarnhau ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon. Am y wybodaeth ddiweddaraf ewch i [www.mathcymru.org](http://www.mathcymru.org)

Mae'r lleoedd ym mhob digwyddiad yn gyfyngedig - i gadw'ch sedd cysylltwch â [johnohp@techniquest.org](mailto:johnohp@techniquest.org) neu ffoniwch **029 20 475 475**.

For more information contact:

mathcymru,  
Techniquest,  
Stuart Street,  
Cardiff CF10 5BW  
T 029 20 475 475  
F 029 20 482 517  
E [info@techniquest.org](mailto:info@techniquest.org)



Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

mathcymru,  
Techniquest,  
Stryd Stuart,  
Caerdydd CF10 5BW  
T 029 20 475 475  
Ff 029 20 482 517  
E [info@techniquest.org](mailto:info@techniquest.org)

mathcymru is supported by the Welsh Assembly Government



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government

TECHNIQUEST

[www.mathcymru.org](http://www.mathcymru.org)

Cefnogir mathcymru gan  
Llywodraeth Cynulliad Cymru